Fforwm Ansawdd Aer Cymru

Cynllun Busnes 2009 – 2012

1. Cyflwyniad

Sefydlwyd Fforwm Ansawdd Aer Cymru ym 1994 gan Banel Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd – sef Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) erbyn hyn. Dyma'r bobl sy'n cynrychioli gwasanaethau rheoleiddio Awdurdodau Lleol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, diogelwch a lles cymunedau lleol yng Nghymru. Mae'r Fforwm yn atebol i Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) fel y mae Ffigur 1 yn yr Atodiad yn ei ddangos. Mae'r aelodau yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys:

- Awdurdodau Lleol
- Llywodraeth y Cynulliad
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Sefydliadau Academaidd
- LACORS

Mae'r Cynllun hwn yn nodi ein Diben Cyffredin, yn amlinellu ein hamcanion ac yn rhestru'r blaenoriaethau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys rhaglen waith flynyddol gydag amcanion mesuradwy, wedi'u diffinio'n eglur. O ganlyniad i hyn, byddwn yn dilyn egwyddorion rheoli perfformiad wrth ein gwaith, a gall ein haelodau a rhanddeiliaid eraill eu monitro a'u hadolygu. Rhestrir Cylch Gorchwyl y Fforwm ar dudalen 8, yn yr Atodiad.

2. Nodau Cyffredinol

Nodau cyffredinol y Fforwm yw:

(i) Sicrhau bod gwybodaeth am ansawdd aer yng Nghymru'n cael ei chasglu, ei chydlynu a'i dosbarthu'n fwy prydlon, er mwyn i'r wybodaeth fod ar gael yn eang ar ffurf addas.

(ii) Gwella'r dulliau o gasglu data ar fesuriadau ansawdd aer, a rheoli eu hansawdd yn well.

(iii) Rhoi cymorth a chyngor i Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill am faterion yn ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru.

(iv) Sefydlu cysylltiadau agosach â datblygiadau ymchwil Ewropeaidd ym meysydd polisi ac ymchwil ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop, yn ogystal â chysylltiadau ag asiantaethau eraill, cynllunwyr trafnidiaeth a diwydiant, er mwyn mesur, rheoli a chyfathrebu gwybodaeth am ansawdd aer yng Nghymru yn well.

(v) Annog yr arfer o fabwysiadu dangosyddion ansawdd aer wrth asesu cyflwr yr amgylchedd, cynaliadwyedd ac iechyd y cyhoedd.

3. Amcanion

(i) Parhau i hwyluso'r broses o gasglu, dosbarthu a chydlynu gwybodaeth monitro ansawdd aer yng Nghymru.
(ii) Rhoi llwyfan i aelodau drafod ymholiadau'n ymwneud ag ansawdd aer a chyfnewid syniadau.
(iii) Sicrhau bod data awdurdodau lleol yn fwy dibynadwy a bod modd eu cymharu'n haws, trwy ddatblygu, gwerthuso a gwella gweithdrefnau rheoli ansawdd.
(iv) Rhoi cyfrwng i Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ddarparu ymateb wedi'i gydlynu i ymgynghoriadau ar fesurau, polisïau a phrosesau newydd ym maes ansawdd aer ar lefel Cymru, y DU a'r UE.
(v) Rhoi adroddiadau rheolaidd i Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru).

4. Adnoddau

Aelodau'r Fforwm:
Mae amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ag amrediad o gymwysterau a phrofiad helaeth ym maes rheoli ansawdd aer yn lleol ar gael i'r Fforwm. Mae'r aelodau'n gyfrifol am gyfrannu'n weithredol at raglen waith ac amcanion y Fforwm. Enwebir y Cadeirydd o blith Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru), a phenodir yr Ysgrifennydd o blith aelodau'r Fforwm.

Adnoddau Contractwyr:
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn contractio ymgynghorydd ansawdd aer am gyfnod o dair blynedd i gyflawni'r canlynol:

- Cynnal cronfa ddata ddiogel o ddata monitro ansawdd aer lleol ar gyfer Cymru, gan gynnwys archif gynhwysfawr o ddata awtomatig a heb fod yn awtomatig a ddarperir gan Awdurdodau Lleol Cymru.

- Sicrhau Ansawdd, Rheoli Ansawdd a dilysu data ar gyfer 12 monitor awtomatig sy'n rhoi sylw gofodol i amrywiaeth o lygryddion yr aer yng Nghymru.

- Darparu a diweddaru gwefan Ansawdd Aer Cymru, a fydd yn cynnwys cronfa ddata monitro ansawdd aer, sy'n ddull diogel i aelodau'r fforwm weld adroddiadau cynnydd ac adroddiadau technegol, cyfleuster a chymorth i Awdurdodau Lleol lwytho data monitro ansawdd aer i'r gronfa ddata, a chyfres wedi'i thargedu o wybodaeth am ansawdd aer i randdeiliaid cyhoeddus.

- Darparu cyfleuster rhyngweithiol ar y wefan i gynorthwyo aelodau'r Fforwm i baratoi adroddiadau, cyhoeddiadau eraill ac ymatebion i ymgynghoriadau, a darparu gwasanaeth rheoli technegol ar gyfer y cyfleuster hwnnw.

- Paratoi adroddiad blynyddol ar fonitro ansawdd aer yn lleol yng Nghymru, gan roi manylion gweithgareddau'r Fforwm yn ogystal â datblygiadau technegol a gwyddonol pwysig, a datblygiadau o ran polisi, ym maes ansawdd aer yng Nghymru, y DU ac yn ehangach.

- Trefnu un seminar hyfforddiant ansawdd aer y flwyddyn ar gyfer aelodau'r Fforwm a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill y mae ansawdd aer yn rhan o'u cylch gwaith, ac ychwanegu cyflwyniadau at y wefan.

Ariannol:
Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu'r adnoddau ariannol a'r cymorth rheoli prosiect er mwyn galluogi ymgynghorydd ansawdd aer penodedig i gyflawni'r gweithgareddau uchod.

5. Strwythur Darparu

Mae Fforwm Ansawdd Aer Cymru yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli'r sefydliadau a restrir yn y cyflwyniad. Cynrychiolir pob un o'r 22 Cyngor Unedol yng Nghymru, a phenodir Cadeirydd ac Ysgrifennydd i sicrhau bod gwaith y fforwm yn mynd rhagddo. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnal seminar hyfforddiant unwaith y flwyddyn. Yr ymgynghorydd ansawdd aer a benodwyd sy'n bennaf gyfrifol am drefnu'r seminar hwn, gyda chymorth a chyfraniad aelodau'r Fforwm. Mae'r contractwr hefyd yn paratoi adroddiadau cynnydd unwaith y chwarter ar y gronfa ddata a'r wefan, ac adroddiadau dilysu data Sicrhau / Rheoli Ansawdd bob chwe mis ar gyfer y 12 safle awtomatig y mae'r contract yn eu cwmpasu.

Dangosir i ba raddau y cyflawnwyd amcanion a chamau gweithredu hefyd trwy i aelodau'r Fforwm fwydo cyfraniadau cydlynol i'r cyfleuster rhyngweithiol ar y wefan. Mae aelodau'r Fforwm yn gyfrifol am gyfrannu at ymgynghoriadau perthnasol y tynnwyd sylw atynt trwy gyfrwng y wefan, er mwyn cyflwyno ymateb cyffredinol i'r corff sy'n ymgynghori. Mae'r Fforwm hefyd yn paratoi cyfres o adroddiadau a chyhoeddiadau technegol bob blwyddyn yn tynnu sylw at weithgareddau a gwaith aelodau unigol neu nifer ohonynt, neu hyd yn oed ledled Cymru. Nod yr adroddiadau hyn yw rhannu arferion gorau ym maes rheoli ansawdd aer ymhlith yr aelodau, ac yn ehangach yn y maes ansawdd aer, dangos syniadau gwreiddiol a dulliau gwaith technegol yr aelodau, a thynnu sylw at faterion ansawdd aer penodol yng Nghymru.

Sefydlir grŵp gweithredol o dro i dro ar sail gorchwyl a gorffen, i fynd i'r afael â materion penodol sy'n codi yn y Fforwm. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr penodedig, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.

6. Cynllun Gweithredu

Rhif Amc. All.	Tasgau/Camau Gweithredu Allweddol	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cyflawni
1	Cyflwyno Ymateb Fforwm Ansawdd Aer Cymru i ymgynghoriadau sy'n berthnasol i nodau ac amcanion y Fforwm, ei weithgarwch a'i arbenigedd, a phrofiad yr aelodau. Gellir cyhoeddi ymgynghoriadau ar lefel Ewrop, y DU, Cymru neu yn lleol. Dyma rai mathau o ymgynghoriadau: - Cyflwyno cynigion polisi, strategaethau a chynlluniau gweithredu newydd neu ddiwygiadau i rai cyfredol. - Cynigion a diwygiadau i ddeddfwriaeth. - Canllawiau technegol a dogfennau polisi ar gyfer rheoli ansawdd aer a llygryddion aer - Dogfennau adroddiad statudol i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ansawdd aer a llygryddion aer. - Dogfennau ymchwil drafft neu wedi'u cyhoeddi gan sefydliadau a grwpiau arbenigol perthnasol	Contractwr a Llywodraeth y Cynulliad – tynnu sylw at ddogfennau ymgynghori ac adrannau penodol a chwestiynau perthnasol trwy'r adran drafod ar wefan Fforwm Ansawdd Aer Cymru; cyfuno ymatebion y Fforwm i lunio un ymateb trefnus a'i gyflwyno i'r corff priodol sy'n ymgynghori Fforwm – darparu sylwadau / cyfraniad i'r ymgynghoriad a chymeradwyo'r ymateb terfynol cyn ei gyflwyno.	*O fewn y cyfnod ymgynghori*
2	Paratoi adroddiadau byr / papurau / papurau briffio / cyflwyniadau sy'n disgrifio arferion gwaith newydd, arloesol neu well, neu yn rhoi atebion i broblemau penodol, gan fanteisio ar brofiad aelodau Fforwm Ansawdd Aer Cymru a'u gwybodaeth am reoli ansawdd aer yn lleol neu am gynnal gwaith ymchwil ym maes ansawdd aer yng Nghymru. Dyma rai pynciau a drafodir: - Gweithgarwch monitro llygredd. - Gwaith dadansoddi data. - Gwaith modelu gwasgariad. - Materion o bwys neu ddiddordeb mewn safle penodol. - Gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan sefydliadau sy'n aelodau. - Enghreifftiau o gydweithio.	Contractwr/Llywodraeth y Cynulliad – nodi pynciau posibl a chysylltu ag aelod(au) perthnasol y Fforwm; datblygu adroddiad byr gan / gyda chyfraniad aelod(au)'r Fforwm; cyhoeddi adroddiad naill ai ar adran yr aelodau neu adran gyhoeddus gwefan Fforwm Ansawdd Aer Cymru Fforwm – aelodau penodol i weithio gyda'r contractwr / Llywodraeth y Cynulliad i roi cyfraniad / gwybodaeth ar gyfer adroddiadau penodol; cymeradwyo adroddiadau terfynol; penderfynu ar broses gyhoeddi'r adroddiad; dosbarthu'r adroddiad ymhlith rhanddeiliaid priodol / perthnasol.	Paratoi o leiaf un cyhoeddiad y flwyddyn yn ogystal â rhai eraill wrth i wybodaeth fod ar gael neu wrth i faterion godi.
3	Adolygu gwefan ansawdd aer Cymru i	Contractwr /Llywodraeth y	2009/10

	ddatblygu dulliau mwy amrywiol o ddosbarthu gwybodaeth am ansawdd aer gan gynnwys: - Cyfleuster trafod strwythuredig ar gyfer aelodau yn unig er mwyn hwyluso gweithgareddau mwy strwythuredig y Fforwm (fel y'u nodir yn 1 a 2). - Cyfleuster trafod mwy anffurfiol ar-lein ar gyfer aelodau yn unig, er mwyn i aelodau allu cael trafodaethau aml am faterion Rheoli Ansawdd Aer Lleol a materion eraill yn ymwneud ag ansawdd aer - Gosod cyfleusterau Google Earth a Google Maps er mwyn i'r wefan edrych yn well, ac er mwyn gwella'r cyfleusterau ar-lein.	Cynulliad/Fforwm	
4	Paratoi adroddiad monitro blynyddol i fonitro cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r amcanion a bennwyd yn y cynllun gweithredu hwn, ac i dynnu sylw at faterion ansawdd aer yng Nghymru. Cyflwyno'r adroddiad i Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, a'i gyhoeddi ar wefan Fforwm Ansawdd Aer Cymru.	Contractwr / Llywodraeth y Cynulliad – cwblhau'r adroddiad monitro a'i roi i'r Fforwm Fforwm - cymeradwyo'r adroddiad a'i gyflwyno i Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd	Unwaith y flwyddyn
5	Casglu data monitro, a pharatoi a dosbarthu adroddiadau am gamau gweithredu. Dylai hyn gynnwys: - Cynnal a diweddaru'r gronfa ddata monitro awtomatig a monitro heb fod yn awtomatig. - Dilysu data a Sicrhau / Rheoli Ansawdd ar gyfer y 12 gorsaf monitro awtomatig yng Nghymru - Darparu gwybodaeth a data monitro ar wefan y Fforwm. - Paratoi adroddiad blynyddol Fforwm Ansawdd Aer Cymru. - Cynnal seminar flynyddol Fforwm Ansawdd Aer Cymru.	Contractwr - Cynnal y gronfa ddata; prosesu, a chyflwyno ar wefan y Fforwm, y data monitro awtomatig a heb fod yn awtomatig sy'n cael ei gasglu / ei gyflwyno; Sicrhau / Rheoli Ansawdd y 12 safle awtomatig yng Nghymru unwaith bob 6 mis a chyhoeddi adroddiad ar wefan y Fforwm; Contractwr / Llywodraeth y Cynulliad - datblygu strwythur a chynnwys yr adroddiad blynyddol; datblygu pwnc a siaradwyr ar gyfer y seminar flynyddol Fforwm – Cyflwyno data awtomatig a heb fod yn awtomatig i'r gronfa ddata, o'r gweithgarwch monitro sydd dan ei ofal; datrys problemau sy'n gysylltiedig ag offer monitro a data sydd dan ei ofal; cyfrannu yn ôl y gofyn at yr adroddiad blynyddol; cyfrannu yn ôl y gofyn at y seminar flynyddol.	Paratoi adroddiadau cynnydd unwaith bob chwarter, adroddiadau dilysu data Sicrhau / Rheoli Ansawdd unwaith bob 6 mis, cynnal seminar flynyddol.

6	Adolygu'r cynllun busnes unwaith y flwyddyn a'i ddiwygio / diweddaru yn ôl y gofyn.	Fforwm	1/9/2010

ATODIAD

Ffigur 1 Perthynas y Fforwm Ansawdd Aer â grwpiau eraill



Nodiadau: GPIyrAC – Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru
PSMC – Penaethiaid Safonau Masnach Cymru

FFORWM ANSAWDD AER CYMRU

CYLCH GORCHWYL

1. Hwyluso'r gwaith o gasglu, dehongli, dosbarthu a chydlynu gwybodaeth am ansawdd aer yng Nghymru ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

2. Rhoi cymorth a chyngor i awdurdodau lleol wrth iddynt asesu a rheoli ansawdd aer yng Nghymru mewn ymateb i Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU.

3. Sicrhau bod data Awdurdodau Lleol yn fwy dibynadwy a chywir a'i bod yn haws eu cymharu, trwy werthuso, gwella a datblygu gweithdrefnau rheoli ansawdd.

4. Sefydlu cysylltiadau agosach â datblygiadau ymchwil Ewropeaidd, asiantaethau eraill, cynllunwyr trafnidiaeth a diwydiant, gan hyrwyddo dangosyddion o gyflwr yr amgylchedd, cynaliadwyedd ac iechyd y cyhoedd ym maes ansawdd aer.

5. Hyrwyddo ansawdd yr aer yn lleol ac yn rheolaidd i Gymdeithas Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru).

AMCANION

1. Parhau i weithredu Cronfa Ddata Ansawdd Aer Cymru er mwyn casglu gwybodaeth monitro ynghyd gan holl awdurdodau lleol Cymru gyda'r bwriad o gynnal cofrestr o ddata hanesyddol ym maes monitro ansawdd aer.

2. Adolygu'n rheolaidd y systemau gwybodaeth a sefydlwyd i gofnodi a dosbarthu data, a datblygu systemau gwell pan fo angen.

3. Datblygu gweithdrefnau gweithredol i'w gwneud yn haws casglu data yn awtomatig o'r holl offer monitro parhaus yng Nghymru.

4. Parhau i sicrhau bod gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad gyswllt o bell â'r gronfa ddata.

5. Parhau i weithredu Gwefan Ansawdd Aer Cymru sy'n darparu data a gwybodaeth gynhwysfawr am ansawdd aer yng Nghymru i amrywiaeth eang o randdeiliaid a phobl â diddordeb.

6. Parhau i sefydlu meini prawf sicrhau ansawdd sy'n dderbyniol gan bawb ar gyfer gweithdrefnau monitro, dadansoddi samplau ac asesu canlyniadau, gyda'r bwriad o sicrhau bod y data a gesglir yn gydnaws.

7. Cefnogi Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol cyfredol er mwyn gallu cofnodi a chyflwyno ansawdd aer.

8. Darparu fforwm ar gyfer paratoi ymatebion prydlon, wedi'u cydlynu, gan Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i ymgynghoriadau ar

fesurau, polisïau a phrosesau newydd ym maes ansawdd aer yng Nghymru, y DU a'r UE.

9. Trefnu seminarau blynyddol i hwyluso'r broses o ddosbarthu gwybodaeth berthnasol ymhlith rhanddeiliaid.

10. Parhau i ddatblygu systemau rheolwaith a systemau gwybodaeth i gyfrifo tueddiadau gofodol mewn ansawdd aer a defnyddio'r rheolwaith rhyngosod i ddarparu modelau i ragweld tueddiadau llygredd.

11. Nodi bylchau yn y gwaith monitro ansawdd aer cyfredol yng Nghymru a hyrwyddo mentrau i annog sefydliadau ledled Cymru i ymateb mewn ffordd gydlynol.

12. Cynorthwyo a chynghori Awdurdodau Lleol i ymateb i ofynion Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU wrth iddynt newid.

13. Dehongli a dosbarthu gwaith ymchwil newydd ar ansawdd aer yng Nghymru, a nodi bylchau ble y mae angen rhagor o astudiaeth.